Ysgol Treganna

ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk
@YsgolTreganna

# Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni 2023–24



| Tymor | Dechrau | Dechrau Hanner Tymor | Diwedd Hanner Tymor | Diwedd y Tymor |
|---|---|---|---|---|
| Tymor yr Hydref | Dydd Llun 2/9/24 | Dydd Llun 28/10/24 | Dydd Gwener 1/11/24 | Dydd Gwener 20/12/24 |
| Tymor y Gwanwyn | Dydd Llun 6/1/25 | Dydd Llun 24/2/25 | Dydd Gwener 28/2/25 | Dydd Gwener 11/4/25 |
| Tymor yr Haf | Dydd Llun 28/4/25 | Dydd Llun 27/5/25 | Dydd Gwener 31/5/25 | Dydd Llun 21/7/25 |

**Bydd yr ysgol ar gau ar y dyddiadau canlynol**

- 2/9/24
- 3/9/24
- 25/10/24
- 6/1/25
- 23/5/25
- 21/7/25


Pennaeth:
**Mrs Catrin Evans**

**Heol Sanatorium**
**Treganna**
**Caerdydd**
**CF11 8DG**

Cadeirydd y Llywodraethwyr:
**Mrs Manon George**


Math o ysgol:
**Ysgol Gynradd**


dylunio: **elfen.co.uk**

| | |
|---|---|
| Pennaeth | 4 |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | 5 |
| Aelodau'r Bwrdd Llywodraethol | 6 |
| Ethol i'r Bwrdd Llywodraethol | 6 |
| Adroddiad Cyllideb | 8 |
| Prosbectws | 8 |
| Estyn | 9 |
| Arolwg Estyn 2019 | 9 |
| Cynnydd yn erbyn y Cynllun ol-arolwg 2023–24 | 9 |
| Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2023–24 | 10 |
| Cysylltiadau cymunedol ac ymwelwyr | 11 |
| Gweithgareddau Chwaraeon | 12 |
| Ysgolion Iach a Chyfleusterau | 13 |
| Manylion Rhoddion i Elusennau | 14 |
| Pontio | 14 |
| Datblygiadau'r Ysgol 2023–24 | 15 |
| Darpariaeth Lles | 22 |
| Polisïau | 24 |
| Staff yr Ysgol | 25 |
| Cyfanswm y disgyblion Medi 23 | 27 |
| Presenoldeb 2023–24 | 27 |
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus | 28 |
| Rheoli Perfformiad | 29 |
| Datblygiadau i Rieni | 30 |
| Cymdeithas Rhieni ac Athrawon | 31 |
| Ieithoedd | 32 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 34 |
| Iechyd a Diogelwch | 37 |
| Blaenoriaethau 2024–25 Arweinyddiaeth | 38 |
| Blaenoriaethau 2024–25 Dysgu ac Addysgu | 39 |
| Blaenoriaethau 2024–25 Cwricwlwm | 40 |
| Blaenoriaethau 2024–25 ADY, Lles a Chynhwysiant | 41 |
| 2024-25 | 42 |

## Pennaeth

**Hoffwn ddiolch i'r gymuned ysgol arbennig sydd gyda ni yn Nhreganna am y croeso, ac am eu cefnogaeth a'u hymroddiad. Fel pennaeth newydd yr ysgol, rwyf am greu diwylliant o bosibilrwydd yn Ysgol Treganna ble mae parodrwydd i ddysgu, i gofleidio syniadau newydd, i anelu am ragoriaeth yn rhan allweddol o weledigaeth yr ysgol. Ond hefyd datblygu'r diwylliant gofalgar a chynhwysol sy'n cynnal ac yn dathlu'r "ysgol fechan yn y ddinas fawr".**

Y fechan, sef yr agosatrwydd, yr ymdeimlad o berthyn o fewn y cymunedau, ond yna'r mawredd a'r cydweithrediad pwerus pan ddaw'r cymunedau ynghyd fel un ysgol gref.

Mae cydweithio gyda theulu eang ein cymuned yn flaenoriaeth i mi fel pennaeth newydd. Mae ymdeimlad o berthyn, gofal a natur deuluol yn amlwg yn yr ysgol ac rwyf am ddatblygu hyn ymhellach gan sicrhau bod ffyniant disgyblion a'u lles wrth wraidd popeth a wnawn yma yn Nhreganna.

Rwyf am sicrhau ein bod yn cynnig profiadau ysbrydoledig i'n disgyblion gan hyrwyddo cwricwlwm byw, cyfredol ac uchelgeisiol sy'n tanio dychymyg ein disgyblion ac yn meithrin eu chwilfrydedd.

Mae gennym dîm hynod ymroddedig yn Nhreganna ac mae'r cydweithredu unigryw rhwng disgyblion, staff a llywodraethwyr yn dyst i'r elfen gref o undod sy'n amlwg yn ein hysgol. Edrychaf ymlaen at gydweithio ymhellach gyda chymuned ysgol Treganna. Rwyf am sicrhau ein bod yn darparu'r safonau addysg a chefnogaeth uchaf posibl i'n holl ddisgyblion, lle mae gan bob disgybl ac aelod o'r tîm gyfleoedd niferus i gyflawni a rhagori ar ei botensial, lle nad oes nenfwd.

Yn ddiffuant,
**Catrin Evans**

**Cadeirydd y Llywodraethwyr**

## Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad yma i chi ar ran Llywodraethwyr Ysgol Treganna.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur a chyffrous arall i'r ysgol, a'r Pennaeth newydd bellach wedi bod wrth ei gwaith ers dros flwyddyn. Diolch o galon i Mrs Evans am ei harweiniad a'i gweledigaeth, ac i weddill y staff am eu hymrwymiad a'u gweithagrwch diflino wrth sicrhau cwricwlwm eang a byw i bob plentyn. Diolch hefyd i'r llywodraethwyr am eu gwaith a'u cyfraniad hwythau.

Mae'r plant unwaith eto wedi cael ystod o brofiadau a gweithgareddau sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd craidd: Teulu, Cymreictod, ac Uchelgeisiol. Cyfleoedd sy'n cynnwys gwersi awyr agored, pwyllgorau disgyblion, ymweliadau, tripiau preswyl, perfformiadau, a gemau chwaraeon. Mae brwdfrydedd ac egni'r disgyblion yn ysbrydoliedig, ac rydym yn falch iawn o gynnydd a llwyddiant pob un ohonynt. Diolch arbennig felly i'r plant - am eu gwaith a'u cwmni, a dymuniadau gorau i'r rheini sy'n ein gadael haf yma.

Diolch hefyd i'r rhieni a gofalwyr am bob cefnogaeth ac am weitho mewn partneriaeth â ni. Ein nod yw darparu addysg a chefnogaeth o'r safon uchaf, mewn amgylchedd hapus a diogel, gyda chyfleoedd i bob disgybl gyflawni eu potensial – does dim nenfwd. Gobeithio eich bod yn gweld y weledigaeth yna ar waith.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn llwyddiannus arall, ac at weld ffrwyth llafur y staff a'r disgyblion tu mewn a thu allan y dosbarth.

**Manon George**
Cadeirydd y Llywodraethwyr

## Aelodau'r Bwrdd Llywodraethol

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol. Rhaid i Ysgol Treganna i weithredu o fewn y fframwaith a osodir gan ddeddfwriaeth a rhaid sicrhau bod polisïau'r Awdurdod Lleol (ALl) a Llywodraeth Cymru (LlC) yn cael eu dilyn.

Y Pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd tra bod y Corff Llywodraethu yn cyflawni rôl strategol.

Mae'r Pennaeth, a'r Uwch Dîm Rheoli yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Corff Llywodraethol er mwyn sicrhau bod disgyblion yr ysgol yn derbyn yr addysg gorau.

Mae'r Corff Llywodraethu yn cwrdd dwywaith y tymor. Mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w drafod gan y Bwrdd Llywodraethol. Mae'r adroddiadau yma'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio ag ati. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cwrdd dwywaith bod tymor a'r pwyllgorau eraill yn cwrdd yn ystod y flwyddyn. Gellir cysylltu â'r Cadeirydd a'r Clerc drwy lythyr i'r ysgol. Ni thelir unrhyw dreuliau i unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethol.

Mae gan y Corff Llywodraethu nifer o bwyllgorau sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o waith yr ysgol.

## Ethol i'r Bwrdd Llywodraethol

O bryd i'w gilydd bydd angen ethol rhieni i'r Bwrdd Llywodraethol ac mae gwybodaeth am drefniadau ethol rhiant-lywodraethwyr yn cael eu hanfon at bob rhiant/ofalwr.

| Enw | Yn cynrychioli |
|---|---|
| Manon George, Cadeirydd | Awdurdod Lleol |
| Carolina Avila Jones | Rhiant Lywodraethwr |
| Susan Elsmore | Awdurdod Lleol |
| Dafydd Franklin | Rhiant Lywodraethwr |
| Sharon Krause | Awdurdod Lleol |
| Menna Roberts | Is Gadeirydd Cymuned |
| Paul Humphries | Rhiant Lywodraethwr |
| Simon Taylor | Rhiant Lywodraethwr |
| Charith Perera | Cymuned |
| Gareth Rhys Evans | Rhiant Lywodraethwr |
| Lleu Williams | Cymuned |
| Stefan Rollnick | Awdurdod Lleol |
| Tom Simms Hayes | Staff heb fod yn addysgu |
| Eleri Jones | Athrawes |
| Elin James | Athrawes |
| Catrin A Evans | Pennaeth |
| Gareth W Evans | Dirprwy Bennaeth |

## Adroddiad Cyllideb

### Crynodeb o'r gyllideb 2023/24

- **Incwm** – £485,134
- **Gwariant Cyflawnedig** – £2,559,474
- **Cyllid Fformiwla** – £2,525,600
- **Mewn blwyddyn (Cyllid – Gwariant Net)** – £33,874
- **Cyfanswm Balans a Ddygwyd Ymlaen 2024-25** – £36,749
- **Cyfanswm Balansau ar 31 Mawrth 2024** – £70,263

## Prosbectws

Rhoddir Prosbectws i rieni pan ddaw disgyblion i'r ysgol gyntaf. Mae'r prosbectws ar wefan yr ysgol. Mae holl bolisïau'r ysgol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn ymgynghoriadau rhwng staff a llywodraethwyr.

### Newidiadau i'r Prosbectws

Mae'r prosbectws wedi ei ddiweddaru i gynnwys manylion staffio newydd yr ysgol.

**Estyn**
**Arolwg Estyn 2019**

**Argymhellion:**

- Rhannu arferion da yr addysgu ar draws y cyfnod sylfaen

**Cynnydd yn erbyn y Cynllun ol-arolwg 2023–24**

Dyddiad Arolwg Diwethaf: **Ebrill 2019**

Perfformiad Cyfredol: **Cynnydd da/Rhagorol**

Gallu i Wella: **Rhagorol**

**Argymhellion:**

- Rhannu arferion da yr addysgu ar draws y cyfnod sylfaen

**Camau Gweithredu 23-24**

- Datblygu ymellach ystafelloedd dosbarth awyr agored yn defnyddio'r model Chwilfrydedd Chwarae.
- Sicrhau cysondeb a dilyniant – staff i greu adnoddau ar gyfer yr ardaloedd allanol sy'n flaengar ac yn caniatáu datblygiad systematig o fedrau creadigol y disgyblion.
- Hyrwyddo dulliau cydweithredol o ddysgu proffesiynol a rhannu arferion da gyda ffocws penodol ar annibyniaeth a gwahaniaethu.
- Canolbwyntio ar fodelu byw fel arf gwahaniaethol i wneud dysgu yn hygyrch i bawb ac i annog dysgu annibynnol.
- Datblygu systemau a phrosesau datblygu ar gyfer addysgu a strategaeth dysgu creadigol Llythrennedd ar draws y cyfnod sylfaen yn unol â Chwricwlwm i Gymru.

## Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2023–24

**Blaenoriaeth 1**
Llythrennedd/ Cymreictod – Llais 21 a'r Wobr Aur Siarter Iaith.

**Blaenoriaeth 2:**
Rhifedd – cynllunio yn defnyddio'r 5 hyfedredd.

**Blaenoriaeth 3**
Cynllunio ac asesu'r cwricwlwm.

**Blaenoriaeth 4**
Cymhwysedd Digidol,mapio sgiliau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol gan greu Cynllun Ysgol Gyfan.

**Blaenoriaeth 5**
Parhau i esblygu diwylliant sy'n sicrhau cyfrifoldeb ysgol gyfan am faes Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

## Cysylltiadau cymunedol ac ymwelwyr

| |
|---|
| Ymweliad Bardd Plant Cymru |
| Ymweliadau gan y Gwasanaeth tân |
| Gweithdy Anabledd mewn Chwaraeon |
| Diwrnod y Llyfr |
| Dydd Miwsig Cymru |
| Ymweliad Ysgol Kitchener |
| Ymweliad Into Ffilm |
| Jambori yr Urdd |
| Ymweliad Technocamp Lego |
| Nifer o weithgareddau ysgol i godi arian i elusennau, yn cynnwys Sport Relief, Macmillan a Felindre |
| Cafodd pob plentyn gyfle i berfformio yn Eisteddfod yr Urdd |
| Disgyblion yn cymryd rhan yn Her Darllen yr Haf gyda Llyfrgelloedd Caerdydd |
| Sioe Mewn Cymeriad |
| Ymweliad i Gastell Ffonmwn |
| Eisteddfod Ysgol |
| Ymweliadau preswyl i PGL, Call of the Wild, Llangrannog a Chanolfan yr Urdd Caerdydd |
| Disgo'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (GRhA) |
| Ffair Haf y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (GRhA) |
| Gwersi offerynnol piano, gitâr, pres, chwythbrennau, telyn, soddgrwth |
| Gweithdai Sain Ffagan |
| Cystadleuaeth Cwis Llyfrau |
| Sioe Carnifal y Cymoedd |
| Gweithdy Senedd Ieuenctid Cymru |
| Gweithdai Graffiti |
| Taith i'r Bae |
| Ymweliadau i'r eglwys, mosg, synagog |

## Gweithgareddau Chwaraeon

- Gweithdai criced
- Gwersi Nofio
- Twrnamaint Pêl droed America
- Twrnamaint Pêl droed merched a bechgyn Caerdydd a'r Fro
- Gweithdy Anabledd mewn Chwaraeon Prifysgol Met Caerdydd
- Gŵyl Hoci Gerddi Soffia
- Cystadleuaeth pêl droed 5 bob ochr merched a bechgyn Caerdydd a'r Fro
- Gwersi seiclo i Flwyddyn 6
- Cystadleuaeth traws gwlad yr Urdd
- Cystadleuaeth pêl droed bechgyn yr Urdd
- Cystadleuaeth pêl droed merched yr Urdd
- Cystadleuaeth rygbi'r Urdd bechgyn a merched
- Cystadleuaeth gymnasteg yr Urdd
- Cystadleuaeth Rygbi Tag yr Urdd bechgyn a merched
- Cystadleuaeth pêl rwyd yr Urdd
- Cystadleuaeth criced yr Urdd
- Mabolgampau i bawb, Mabolgampau bl 5 a 6 yn Stadiwm Leckwith
- Cwpan Betsan

## Ysgolion Iach a Chyfleusterau

Mae Addysg Iechyd yn rhan sylweddol ac annatod o'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth a dealltwriaeth eang o faterion iechyd ac yn datblygu'r sgiliau a'r agweddau priodol sy'n arwain at ffordd o fyw cyfrifol ac iach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta'n iach, mae plant yn y Cyfnod Sylfaen yn cael darn o ffrwyth yn ddyddiol ac yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Yng Nghyfnod Allweddol 2, anogir disgyblion i ddod â ffrwythau i'r ysgol yn ddyddiol i'w bwyta yn ystod amser chwarae.

Anogir pob plentyn hefyd i ddod â photel o ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol. Mae disgyblion yn cael eu hannog i yfed dŵr yn rheolaidd yn ystod y dydd.

Addysgir Addysg, Rhyw a Chydberthynas a Rhywioldeb ar draws y continwwm dysgu.

### Wythnosau Iach 2023-24:

- Wythnos cerdded i'r ysgol
- Wythnos Wrth -fwlio
- Wythnos Diogelwch ar y We

Bu'r wythnosau yma, sy'n seiliedig ar weithgareddau a gwybodaeth ar sut i gadw'n iach, yn llwyddiant unwaith eto. Gwahoddwyd nifer o asiantaethau allanol ac ymwelwyr i'r ysgol i rannu profiadau personol a gwybodaeth am eu gwaith.

### Cyfleusterau Toiledau:

Mae gan yr ysgol gyfleusterau toiledau gofynnol ar gyfer disgyblion mewn ysgol o'i maint. Caiff y cyfleusterau eu glanhau ar ddiwedd ac ar ddechrau'r dydd. Mae gan yr ysgol bolisi Toiledau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol.

## Manylion Rhoddion i Elusennau

Plant Mewn Angen: **£478.50**

Gwisgo Coch i Felindre: **£400**

Achub y Plant: **£294**

## Pontio

Yn ystod 2023-24 trosglwyddodd disgyblion Ysgol Treganna i dair ysgol uwchradd wahanol.

Trosglwyddodd y plant i Ysgol Plasmawr, Ysgol Glantaf ac Ysgol Fitzalan. Cynhaliwyd gwersi Ffrangeg ac fe'u trefnwyd fel rhan o drefniadau pontio Plasmawr.

**DISGYBLION BLWYDDYN 6:**
Cyfanswm: **84**

Ysgol Gyfun Plasmawr: **78**

Ysgol Glantaf: **4**

Ysgol Fitzalan: **2**

## Datblygiadau'r Ysgol 2023–24

### Eisteddfod yr Urdd

Cawsom flwyddyn lwyddiannus iawn yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Bu ein grŵp dawnsio Aml Gyfrwng, y Gân Actol, y Parti Cerdd Dant, yr Ensemble Lleisiol, Morus, Trystan, Elen a Jini yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod. Enillodd Morus a Trystan cystadleuaeth y ddeuawd, enillodd yr Ensemble Lleisiol a'r Parti Cerdd Dant, daeth Jini yn ail yn y ddeuawd, daeth Elen yn drydydd yn yr unawd Cerdd Dant a daeth y Gân Actol yn drydydd. Llwyddodd grŵp Celf yr ysgol hefyd i ennill y drydydd wobr. Yn sgil perfformiad yr Ensemble lleisiol yn yr Eisteddfod cafodd y grŵp wahoddiad i berfformio yn nathliadau'r Senedd yn 25 mlwydd oed. Diolch i staff yr ysgol wnaeth hyfforddi'r disgyblion.

## Datblygiadau'r Ysgol 2023-24

### Diwrnod Darganfod

Eleni fe wnaethom ail sefydlu Diwrnod Darganfod ym mhob blwyddyn. Nod y Diwrnod Darganfod yw sicrhau bod llais y disgybl yn llywio'r cynllunio. Yn ogystal datblygu eu chwilfrydedd a'u sgiliau mentergarwch ac annibynnol.

Yn ystod tymor yr haf, bu pob dosbarth yn cymryd rhan mewn Diwrnod Darganfod i lansio eu prosiectau dysgu, gan roi cychwyn ysbrydoledig i'w hastudiaethau.

Aeth y dosbarth **Derbyn** ar daith gyffrous i archwilio byd y dinosoriaid. Roedd hyn yn fan cychwyn gwych i'w hastudiaeth o bethau byw ac ecosystemau.

Ym **Mlwyddyn 1**, roedd y cysyniad yn canolbwyntio ar gynefinoedd. Ymwelodd y plant ag ardal leol Treganna i arsylwi ar gynefinoedd bwystfilod a thrychfilod bach, gan ddod â'r pwnc yn fyw.

Ymwelodd **Blwyddyn 2** â siop elusen leol, gan ysbrydoli prosiect dosbarth lle maent wedi cynllunio ac yn rhedeg eu siop elusen eu hunain o fewn ystafell ddosbarth.

Roedd **Blwyddyn 3** yn canolbwyntio ar faterion amgylcheddol. Aethant i arsylwi ar afon Taf, ac mae hyn wedi arwain at ymchwiliad i lygredd a'r cysylltiad rhwng yr amgylchedd ac iechyd byd-eang.

Yn **Blwyddyn 4**, y thema oedd chwyldro. Archwiliodd y disgyblion beiriannau'r dyfodol a chynhaliwyd arbrofion STEM yn ymwneud ag algâu a charbon, gan osod sylfaen i'w dysgu gwyddonol y tymor hwn.

Trefnodd **Blwyddyn 5** ffair swyddi gyda chwmnïau cynaliadwy lleol, a chafodd y disgyblion eu hysbrydoli i greu ap cynaliadwyedd fel rhan o'u gwaith hanner tymor.

Archwiliodd **Blwyddyn 6** y dyfodol gyda gweithdy gan Astro Cymru, gan arwain at brosiect cyffrous yn archwilio'r gofod.

Fe wnaeth y prosiectau hyn danio chwilfrydedd y disgyblion gan osod cyfeiriad dysgu cyfoethog ar gyfer y tymor.

## Datblygiadau'r Ysgol 2023-24

### Pwyllgorau Llais y Disgybl

Mae pwyllgorau llais y disgyblion yn ganolog i'n gwaith fel ysgol. Rydym yn rhoi lle amlwg i leisiau'r disgyblion ac yn cydnabod pa mor bwysig yw eu cyfraniad i'n cymuned ysgol. Trwy gymryd rhan mewn cynghorau a grwpiau arbenigol, mae disgyblion yn datblygu sgiliau arwain, gweithio fel tîm, meddwl yn greadigol a gwneud penderfyniadau sydd â gwir effaith ar fywyd dyddiol yr ysgol.

### Cyngor Ysgol

Mae aelodau'r Cyngor Ysgol eleni wedi cydweithio ar ddatblygu gorlan ar gyfer pob dosbarth. Mae'r gwaith hwn wedi cynyddu ymdeimlad o berchnogaeth gan y disgyblion ac wedi gwella amgylchedd yr ysgol.Maent hefyd wedi cynnal Teithiau Dysgu yn edrych ar yr amgylchedd dysgu a'r cyfleoedd sydd gan y disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol.

### Cyngor Eco

Mae disgyblion Eco wedi gweithio'n agos gyda'r gymuned leol ac wedi dangos arweinyddiaeth mewn dysgu am gynaliadwyedd. Maent wedi cydweithio gyda chwmni Lovells ar brosiectau gwyrdd, trefnu gweithgareddau codi sbwriel, a chefnogi ailgylchu gwisgoedd ysgol, gan ddatblygu ymwybyddiaeth amgylcheddol gryf ar draws yr ysgol.

### Llysgenhadon Lles

Mae'r grŵp hwn wedi helpu i hyrwyddo lles meddyliol a chorfforol drwy lunio holiaduron hapusrwydd, dylunio ardaloedd gwahanol ar yr iard i weddu i anghenion gwahanol disgyblion, a chyflwyno gwasanaeth arbennig i egluro sut i ddefnyddio'r ardaloedd newydd.

### Criw Cymraeg

Mae'r Criw Cymraeg wedi bod yn hynod weithgar yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Maent wedi trefnu Diwrnod Shwmae / Sumae, cynrychioli'r ysgol yn nigwyddiad proffesiynol Siarter Iaith, ac wedi creu fideos i gefnogi defnydd o batrymau iaith ar draws yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r criw ac i'r ysgol am ennill gwobr aur y Siarter Iaith eleni.

### Dewiniaid Digidol

Mae'r disgyblion hyn wedi dangos sgiliau technolegol gwych drwy helpu i greu continwwm digidol sy'n helpu i asesu cynnydd digidol disgyblion, a gwerthuso cynnwys a threfniant ffeiliau digidol yr ysgol, gan sicrhau eu bod yn ddefnyddiol ac yn hygyrch i bawb.

## Datblygiadau'r Ysgol 2023-24

### Gwerthuso a Gwella

Eleni, rydym wedi datblygu strategaeth hunanwerthuso newydd yn yr ysgol sy'n ein helpu i adnabod ein cryfderau yn ogystal â meysydd lle gallwn wella ymhellach. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar feysydd arolygu newydd Estyn ac yn alinio gyda'r fframwaith gwerthuso a gwella cenedlaethol. Mae'r strategaeth hon wedi'i seilio ar egwyddorion clir gwerthuso a gwella, ac rydym yn ei defnyddio bob tymor i ganolbwyntio ar feysydd penodol o'n gwaith. Er enghraifft, rydym yn edrych ar beth sy'n sbarduno llwyddiant yn y meysydd hyn, ac yn defnyddio cwestiynau ffocws i arwain ein hadolygiad. Mae hyn yn ein galluogi i wneud newidiadau ystyrlon sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym hefyd wedi sicrhau bod adnoddau dysgu proffesiynol ar gael i staff, yn ogystal â chyfleoedd i gydweithio ac i ddysgu gan ysgolion eraill. O ganlyniad i'r dull hwn o hunanwerthuso mae'r staff yn fwy ymwybodol o beth sy'n gweithio'n dda, ac yn gallu addasu'u dulliau dysgu i wella profiadau'r disgyblion. Rydym wedi gwneud newidiadau pendant i rai o'n dulliau addysgu a chynllunio, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau i blant. Mae datblygiad proffesiynol ein staff wedi ei dargedu'n well, gan sicrhau bod sgiliau'r staff yn parhau i ddatblygu er budd y disgyblion.

## Datblygiadau'r Ysgol 2023-24

### Gwefan Ysgol Newydd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, daeth yn amlwg bod angen gwefan newydd ar yr ysgol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol, gyfredol ac ymarferol ar gael yn hawdd i rieni a'r gymuned ysgol ehangach. Buom yn brysur yn ymchwilio i opsiynau, ac aethom ati i gydweithio gyda SE Creative yn Abertawe i ddatblygu gwefan newydd sy'n adlewyrchu'n glir gweledigaeth a gwerthoedd ein hysgol. Mae'r broses o greu'r wefan wedi cynnwys cydweithio yn agos gyda staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr, gan sicrhau bod y cynnwys a'r dyluniad yn diwallu anghenion y gymuned gyfan. Mae'r wefan newydd bellach wedi'i lansio, ac mae'n cynnwys gwybodaeth gyfredol am weithgareddau'r ysgol, polisïau, calendr digwyddiadau a chefnogaeth i rieni – i gyd mewn fformat syml, hygyrch a deniadol. Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan rieni a defnyddwyr eraill, gyda llawer yn dweud ei bod yn llawer haws dod o hyd i'r wybodaeth maen nhw ei hangen. Mae'r wefan newydd yn gam pwysig ymlaen i'n cyfathrebu fel ysgol, ac rydym yn falch o'r effaith gadarnhaol mae eisoes yn ei chael.

## Datblygiadau'r Ysgol 2023-24

### Datblygu'r Amgylchedd Dysgu

Elfen allweddol o'n nod fel ysgol eleni oedd datblygu amgylcheddau dysgu sy'n sbarduno dysgu annibynnol, creadigol ac ystyrlon. Mae'r gwaith yma wedi bod yn rhan o'n cynllun datblygu ysgol ac mae wedi cael effaith bositif ar brofiad dysgu'r disgyblion. I gychwyn, cynhaliwyd sesiwn gyflwyniadol i'r holl staff yn amlinellu'r weledigaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd dysgu. Rhoddodd hyn gyfeiriad clir ar sut i greu lleoedd dysgu sy'n ysbrydoli chwilfrydedd, archwilio ac annibyniaeth ymhlith y plant. Yn ystod Diwrnod HMS mis Ebrill, cafodd staff gyfle i weithredu'r weledigaeth hon drwy addasu eu dosbarthiadau, creu ardaloedd dysgu ysgogol, cynllunio heriau diddorol, a sicrhau bod waliau gweithredol yn cynnal ac yn hyrwyddo dysgu. Yn ogystal, mae sesiynau ymchwil staff wedi'u cynnal yn rheolaidd fel rhan o hyfforddiant HMS, gan ganolbwyntio ar arferion gorau mewn cynllunio amgylcheddau dysgu. Mae'r sesiynau hyn wedi meithrin trafodaethau proffesiynol ac wedi arwain at welliant amlwg yn y ffordd mae gofod dysgu'n cael ei ddefnyddio o ddydd i ddydd. Mae Taith Dysgu'r Cyngor Ysgol hefyd wedi chwarae rhan bwysig – gyda disgyblion yn archwilio gwahanol ystafelloedd a rhoi adborth ar yr hyn sy'n helpu nhw i ddysgu'n well. Mae'r adborth yma wedi bod yn werthfawr wrth lywio penderfyniadau pellach ac mae'r disgyblion yn cymryd mwy o berchnogaeth dros eu dysgu. Maent hefyd yn defnyddio'r adnoddau o'u cwmpas yn fwy annibynnol, ac yn mynegi bod y gofod dysgu'n eu hysgogi a'u cefnogi'n well.

## Datblygiadau'r Ysgol 2023-24

### Bws Beic

Eleni mae criw o rieni wedi sefydlu Bws Beic Ysgol Treganna. Rydym yn beicio'n ddiogel mewn grŵp, gan ysbrydoli ein gilydd i deithio'n fwy llesol a chynaliadwy i'r ysgol.

Mae'r dyddiadau yn amrywio, gweler negeseuon gan yr ysgol neu trwy grwpiau rhieni. Neu gallwch ymuno a'r grŵp whatsapp Teithwyr Bws Beic er mwyn derbyn cyhoeddiadau.

Mae yna dîm o hwyluswyr (gwirfoddolwyr o rieni ac o'r ysgol) yn cadw pawb yn ddiogel ac ar wahân i'r traffig. Rydym bob amser yn falch cael gwirfoddolwyr newydd ar gyfer hwyluso'r Bws Beic.

## Darpariaeth Lles

Mae lles ein dysgwyr wrth wraidd popeth a wnawn yma yn Nhreganna. O'r herwydd, rydym yn cynnig ymyraethau lles penodol, rhai ar sail cefnogaeth un-i-un, eraill mewn grwpiau bach. Fe ddarperir y rhain yn fewnol gan staff profiadol, a thrwy bartneriaeth gydag asiantaethau allanol:

- ELSA (Llythrennedd Emosiynol)
- Talkabout (Sgiliau Cymdeithasol)
- Therapi Chwarae

### Y Cwtch (Hwb Lles)
### Hafan Ddiogel i Ddysgu a Thyfu

Diffinnir ein Cwtch fel amgylchedd dysgu sydd wedi ei gynllunio'n benodol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion emosiynol a chymdeithasol ein dysgwyr. Fe ganolbwyntir ar feithrin sgiliau a fydd yn lleihau neu'n chwalu rhwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu, ac yn sgil hynny'n eu galluogi i brofi llwyddiant yn ôl yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n ystafell ddosbarth bach, ar wahân, sy'n darparu amgylchedd diogel, wedi'i strwythuro.

Hyderwn felly fod cefnogaeth ac ymyraethau'r Cwtch yn:

- helpu dysgwyr i ddeall eu hemosiynau a'u teimladau'n well
- helpu dysgwyr i deimlo'n gyfforddus wrth rannu unrhyw bryderon neu ofidiau
- helpu dysgwyr yn gymdeithasol i ffurfio a chynnal perthnasoedd
- hybu hunan-barch a sicrhau bod dysgwyr yn gwybod eu bod o werth
- annog dysgwyr i fod yn hyderus ac i ddathlu pwy ydyn nhw
- helpu dysgwyr i ddatblygu gwydnwch emosiynol ac i reoli anawsterau

### Asesu

Rydym yn asesu cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn academaidd. Bob hanner tymor mae'r asesiadau hyn yn cael eu trafod mewn Cyfarfod Cynnydd ac rydym yn sicrhau fod pob disgybl yn cael ei herio, ei gefnogi'n ddigonol ac yn gwneud cynnydd cyson trwy gydol y flwyddyn.

## Darpariaeth Lles

### Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan o'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, ac mae'n rhaid i ysgolion yng Nghymru ddysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fis Medi 2022. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i gynllunio i ddiogelu ein holl blant a phobl ifanc, gan eu cefnogi i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau a fydd yn helpu i'w hamddiffyn trwy gydol eu bywydau. Mae hyn yn hanfodol i adeiladu cymdeithas sy'n trin eraill gyda dealltwriaeth ac empathi, beth bynnag fo'u hethnigrwydd, cefndir economaidd cymdeithasol, anabledd, rhyw, rhywedd neu rywioldeb. Fel ysgol rydym yn cynllunio'n strategol ar gyfer addysg rhyw a pherthnasoedd ac yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach.

### Cydweithio ag ysgolion

Eleni, mae ein hysgol wedi bod yn rhan o brosiectau cydweithredol gyda Chonsortiwm Canolbarth y De, gan gyfrannu'n weithredol at ddatblygu arferion dysgu ac addysgu effeithiol ar draws y rhanbarth. Un o'r prif feysydd rydym wedi bod yn rhan ohono yw asesu, ac rydym wedi cymryd rhan mewn prosiect peilot sillafu. Fel rhan o'r prosiect hwn, bu disgyblion yn defnyddio profion sillafu newydd, ac rydym wedi rhoi adborth gwerthfawr i Brifysgol Caerdydd ar effeithiolrwydd yr adnoddau. Mae hyn nid yn unig wedi dylanwadu ar ddatblygiad y profion ar lefel genedlaethol, ond hefyd wedi ein helpu i wella ein dulliau asesu sillafu o fewn yr ysgol.

Yn ogystal, buom yn cydweithio gydag ysgolion eraill yn y consortiwm ar brosiect Gwaelodlin, gan dreialu'r adnoddau newydd yn ein hysgol. Roedd ein profiadau yn ganolog i rannu arferion da, ac fe wnaethom gyfrannu drwy gyflwyno'r adnoddau i ysgolion eraill yn y consortiwm.

### Clwstwr Plasmawr

Rydym wedi bod yn cydweithio eleni gyda Plasmawr a'r ysgolion cynradd eraill er mwyn datblygu addysgeg a chwricwlwm i Gymru. Rydym wedi bod yn trafod y chwe maes dysgu a phrofiad ac wedi datblygu prosiectau trawsgwricwlaidd a thasgau cyfoethog yn seiliedig ar y meysydd hyn.

## Polisïau

Mabwysiadodd y Corff Llywodraethol y polisïau statudol i gyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac adolygwyd ein polisïau Iechyd a Diogelwch.

Os hoffech weld neu drafod unrhyw bolisi, cysylltwch â Mrs Evans.

### Casgliad Data yn yr ysgol

Mae'r ysgol yn casglu data gan deuluoedd wrth i blant ddechrau yn y Feithrin. Yn ogystal â hyn mae'n rhaid casglu gwybodaeth yn ôl gofynion yr awdurdod yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn sicrhau bod y data yma yn cael ei gadw'n ddiogel ar systemau cyfrifiadur yr ysgol. Mae gan unigolion yr hawl i weld y wybodaeth sydd yn cael ei gadw yn yr ysgol.

### Cynllun Mynediad i'r Ysgol

Fel ysgol rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ag addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. Rydym yn sicrhau bod pob plentyn ag anabledd yn cael yr un profiadau â phawb arall yn yr ysgol. Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd. Mae gan yr ysgol bolisi a chynllun mynediad.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Yn unol â pholisi'r Sir, rydym wedi creu cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn gwarantu pob agwedd ar gydraddoldeb yn yr ysgol. Os hoffech gael copi o'r polisi hwn, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

### Diogelu Plant

Y pennaeth a'r dirprwy yw'r uwch athrawon dynodedig Diogelu Plant. Caiff y staff hyfforddiant blynyddol parthed hyn.

## Staff yr Ysgol

| | |
|---|---|
| Catrin A Evans | Pennaeth |
| Gareth W Evans | Diprwy Bennaeth |
| Mererid Lewis | Cydlynydd Anghenion Ychwanegol |
| Erwain Alaw | Arweinydd Cymuned Pwyll, athrawes dosbarth Arianrhod |
| Marged Miles -Farrier | Arweinydd Cymuned Manawydan, athrawes dosbarth Taliesin |
| Emsyl Llwyd | Arweinydd Cymuned Branwen, athrawes dosbarth Elen |
| Elin James | Tîm Rheoli, athrawes Math |
| Eleri Jones | Tîm Rheoli, athrawes Ceridwen |
| Branwen Parry | Athrawes dosbarth Gronw |
| Matthew Jones | Athro dosbarth Morfydd |
| Mari Williams | Athrawes dosbarth Peredur |
| Bethan Mair Roberts | Athrawes dosbarth Gwern |
| Jess Ausi | Athrawes dosbarth Gronw |
| Ein Roberts-Evans | Athrawes Gwenhwyfawr |
| Angharad Llywelyn | Athrawes dosbarth Seithennyn |
| Sara Jones | Athrawes dosbarth Bendigeidfran |
| Megan Lewis | Athrawes dosbarth Lleu |
| Liz Esau | Athrawes dosbarth Matholwch |
| Sian Morgans | Athrawes dosbarth Llyr |
| Catrin Rees | Athrawes dosbarth Blodeuwedd |
| Elan Morris | Athrawes dosbarth Culhwch |
| Beca Pennar | Athrawes dosbarth Gwydion |
| Elin Evans | Athrawes dosbarth Olwen |
| Catrin V Smith | Athrawes dosbarth Bedwyr |

| | |
|---|---|
| Sian Healan | Athrawes dosbarth Mabon |
| Julia Davage | Arweinydd Dysgu Awyr Agored |
| Isobel Williams | Athrawes CPA |
| Rhoda Henson | CALU |
| Rhiannydd Jones | Arweinydd Lles a'r gymuned |
| Mari Hughes | CALU |
| Jenna Williams | CALU |
| Josh Chapman | CALU |
| Tom Sims-Hayes | Cynorthwyydd Dysgu |
| Rhian Clarke | Cynorthwyydd Dysgu |
| Poppy Sims-Hayes | Cynorthwyydd Dysgu |
| Rhian Owen | Cynorthwyydd Dysgu |
| Carys Jones | Cynorthwyydd Dysgu |
| Davis Camacho | Cynorthwyydd Dysgu |
| Regan Heatley | Cynorthwyydd Dysgu |
| Ann Sneddon | Cynorthwyydd Dysgu |
| Catrin Powell | Cynorthwyydd Dysgu |
| Ingrid Morgan | Cynorthwyydd Dysgu |
| Abbie Lock | Cynorthwyydd Dysgu |
| Isabela Gibbon | Cynorthwyydd Dysgu |
| Kelly Paul | Cynorthwyydd Dysgu |
| Claire Tyler | Cynorthwyydd Dysgu |
| Cate Hughes | Cynorthwyydd Dysgu |
| Bethan Stewart | Pennaeth Gweinyddol |
| Leah Banfield | Cynorthwyydd Gweinyddol |
| Finbar Hayes | Swyddog Ystad |

**Cyfanswm y disgyblion Medi 23**

| Blwyddyn ysgol | Niferoedd |
|---|---|
| Math (Meithrin) | 97 |
| Mabon, Olwen, Bedwyr (Derbyn) | 86 |
| Elen, Culhwch, Gwydion (Bl 1) | 85 |
| Blodewuedd, Llyr, Arianrhod (Bl2) | 82 |
| Ceridwen, Lleu, Matholwch (Bl3) | 81 |
| Gwenhwyfawr, Bendigeidfran, Seithennyn (Bl4) | 75 |
| Peredur, Gwern, Rhiannon (Bl5) | 81 |
| Morfydd, Taliesin, Gronw (Bl6) | 84 |

**Presenoldeb 2023–24**

| Tymor | Canran Presenoldeb |
|---|---|
| Tymor yr Hydref 23 | 94.6% |
| Tymor y Gwanwyn 24 | 95% |
| Tymor yr Haf 24 | 94.3% |
| Targed Presenoldeb yr Ysgol | 95% |

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Y flwyddyn yma mynychodd nifer o'r athrawon a'r cynorthwywyr hyfforddiannau a chyrsiau penodol:

| **Beth?** | **Effaith** |
|---|---|
| Real PE | Gwersi ymarfer corff mwy pwrpasol ac effeithiol. |
| Llais 21 | Codi safonau llythrennedd a llafaredd ar draws yr ysgol. |
| Into Film | Cyfoethogi dealltwriaeth y staff o sut i ddefnyddio ffilmiau i ysbrydoli'r dysgu. |
| Micro Bit | Uwchsgilio staff sut i ddefnyddio micro bit. |
| 5 Hyfedredd | Cynorthwyo'r staff wrth gynllunio ac wrth ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r MDaPh Rhifedd a Mathemamateg. |
| Estyn | Sicrhau bod yr ysgol yn deall trefniadau arolygu newydd Estyn ym mis Medi. |
| Ysgol Jubilee | Dysgu proffesiynol hynod o effeithiol o ran ymchwil, cwricwlwm a'r ardaloedd dysgu. |
| Cwriclwwm | Cymorth effeithiol i esblygu a mierinio'r cwricwlwm ymhellach. |
| Ysgol Cadaxton | Syniadau gwych sut i ddatblygu'r ardaloedd allanol. |
| Nace | Arloesedd o ran asesu ar gyfer dysgu. |
| Cydweithio gyda'r clwstwr i greu pecyn cynnydd | Dealltwriaeth gynyddol gyda'r staff o gynnydd yn y maes llythrennedd. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Dealltwriaeth glir gan staff bl 5 a 6 sut i gyflwyno'r elfen yma o'r cwricwlwm mewn dull cynhwysfawr a sensitif. |
| Arsylwi ar arfer da amrywiaeth a chynhwysiant yn ysgol Hamadryad | Cynorthwyo staff i fireinio cynlluniau'r ysgol i sicrhau bod amrywiaeth yn bwydo trwy gwricwlwm yr ysgol. Cam nesaf - sefydlu grŵp disgyblion i arwain ar y flaenoriaeth yma. |
| Ysgol y Goedwig yn Sweden | Staff wedi rhannu eu harsylwadau o Sweden gan ffocysu ar y defnydd o'r awyr agored a dysgu ymchwilgar. Hyn yn mynd i fwydo mewn i weledigaeth yr ysgol. |
| Therapi Lego | Yn dilyn yr hyfforddiant, y cynorthwywyr yn mynd i weithio gyda grwpiau o ddisgyblion a gweithredu'r ymyrraeth yn yr ysgol. Hyn yn galluogi mwy o ddisgyblion i gael mynediad i'r therapi yma. |
| Cynhadledd Penaethiaid a Dirprwyon | Dyfnhau dealltwriaeth o feysydd megis LGBTQ+,ymchwilio i arferion arloesol mewn ysgolion eraill. |

| **Beth?** | **Effaith** |
|---|---|
| Monster Phonics | Sicrhau bod dealltwriaeth gan arweinwyr blwyddyn o sut i arwain y strategaeth ym mis Medi. |
| Windgate - rhannu arfer dda | Gweld arfer dda a defnyddio'r syniadau er mwyn datblygu ymhellach strategaeth continiwwm chwarae yr ysgol. |

## Rheoli Perfformiad

Mae gweithredoedd Rheoli Perfformiad yr ysgol yn dilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru. Rheoli Perfformiad yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o gytuno ar dargedau perfformiad blynyddol sy'n cynnwys trafodaethau rhwng athrawon a'u harweinwyr tîm a Phrifathrawon a'r Corff Llywodraethol. Mae rheoli perfformiad yn cefnogi gwaith athrawon fel unigolion ac mewn timau. Mae'n sefydlu fframwaith i athrawon a'u harweinwyr tîm gytuno, ac adolygu, blaenoriaethau ac amcanion yng nghyd- destun cynllun gwella'r ysgol. Mae'n cymell staff i fod yn fwy effeithiol yn eu haddysgu a'u harweiniad pwnc. Mae hyn yn ei dro yn arwain at godi safonau ar gyfer yr ysgol gyfan.

Anogir yr holl staff addysgu i ailedrych ar eu targedau trwy gynllun gweithredu. Cynhelir cyfarfodydd adolygu a chaiff targedau newydd eu nodi a'u trafod ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r holl gynorthwywyr dysgu hefyd yn mynd trwy'r un broses.

## Datblygiadau i Rieni

### Cylchlythyr

Rydym yn danfon cylchlythyr allan i'n rhieni bob dydd Gwener. Caiff y cylchlythyr ei ddanfon trwy'r ap Group Ed. Mae'r cylchlythyr yn crynhoi newyddion yr wythnos ac yn cynnwys gwybodaeth am yr wythnos ddilynol.Rydym hefyd yn gosod pob cylchlythyr ar wefan yr ysgol.

### Cyswllt Wythnosol

Rydym yn danfon y cyswllt wythnosol allan i'n rhieni bob dydd Mawrth. Caiff y cyswllt ei ddanfon trwy'r ap Group Ed.
Mae'r cyswllt wythnosol yn cynnwys yr holl wybodaeth a llythyron sy'n berthnasol i ddosbarth eich plentyn.

Rydym hefyd yn gosod pob cyswllt wythnosol ar wefan yr ysgol. Rhennir gwybodaeth ysgol hefyd ar gyfrif instagram yr ysgol ac mae'n ffordd effeithiol o rannu lluniau a'r profiadau amrywiol y mae disgyblion yn eu cael yn yr ysgol

### Cyfarfodydd Rhieni

Trefnwyd llawer o gyfarfodydd i'r rhieni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Gweithdy gwybodaeth ar gyfer pob dosbarth ar ddechrau'r flwyddyn academaidd
- Dau gyfarfod i rieni gyda'r athro dosbarth i drafod cynnydd
- Sesiynau Dathlu Dysgu i bob dosbarth ar ddiwedd tymor yr haf
- Bore Coffi a Chlonc i rieni
- Cyflwyniad o flaenoriaethau'r flwyddyn i rieni
- Bore garddio i rieni
- Nosweithiau Aros a Chwarae dosbarth Math
- Cyngerdd Dathlu Doniau
- Fforwm rhieni
- Disgo Pasg y GRhA
- Ffair Haf y GRhA

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryder ynghylch addysg eich plentyn, neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r ysgol, cysylltwch â ni.

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae CRhA yr ysgol yn rhoi eu hamser a'u hymdrech i godi arian i gefnogi addysg eich plentyn yma yn ysgol Treganna.

Yn ystod y flwyddyn hon mae'r GRhA wedi talu am:

- Adnoddau allanol i'r dosbarthiadau
- Adnoddau Continiwwm Chwarae bob dosbarth
- Adnoddau Dysgu Awyr Agored
- Cyfraniad at barti gadael blwyddyn 6

Mae diolch enfawr yn ddyledus i bawb sy'n ymwneud â'r GRhA ac i bawb am eu rhoddion a'u cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn.

## Ieithoedd

Mae Ysgol Treganna yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Datblygiad ieithoedd Ffrangeg**
Mae Madame Opkins o Ysgol Plasmawr wedi bod yn gweithio pob wythnos gyda disgyblion Blwyddyn 6 yn dysgu Ffrangeg i baratoi ar gyfer Plasmawr.

**Dysgu ac Addysgu 23/24**
Mae ein blaenoriaethau Addysgu a Dysgu eleni wedi ffocysu ar i ba raddau y mae'r addysgu'n hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu a disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr? Rydym wedi trafod gyda'r holl rhanddeiliaid ac wedi creu Fframwaith Addysgu a Dysgu'r ysgol. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- Pa mor dda mae disgyblion yn ymgysylltu â phrofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd?
- Beth yw lefel diddordeb disgyblion yn eu gwaith?
- Pa mor barod y mae disgyblion i ymroi i dasgau a'u cwblhau?
- Pa mor dda maent yn cynnal eu gallu i ganolbwyntio ac yn peidio a gadael i bethau dynnu eu sylw?
- Pa mor dda mae disgyblion yn dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau?
- Pa mor llwyddiannus y mae athrawon yn defnyddio staff eraill i gefnogi dysgu disgyblion?
- Pa mor effeithiol mae'r ardaloedd allanol yn cael eu defnyddio i atgyfnerthu'r dysgu?
- I ba raddau mae disgyblion yn ddysgwyr annibynol?
- I ba raddau mae'r dysgu annibynnol yn cyfoethogi ac yn atgyfnerthu ffocws/ nod y wers?

**Cwricwlwm i Gymru**

Mae ein blaenoriaethau cwricwlwm eleni wedi cynnwys:

- Creu system tracio cynnydd gan ddatblygu model asesu cynhwysfawr ac effeithiol.
- Datblygu ein Polisi Asesu i sicrhau bod asesu yn galluogi dilyniant dysgwyr, yn cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd, ac yn ein galluogi i fyfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- Cyflwyno cynllun addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i'r ysgol. Canolbwyntio ar ddilyniant o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a hwyluso trafodaethau ynghylch dilyniant o fewn a rhwng y camau cynnydd
- Parhau i weithio gydag ysgolion y clwstwr ar ddatblygu a threialu dilyniant ar y cyd er mwyn datblygu disgwyliadau uchel a llwybr dilyniant cydlynol i ddysgwyr
- Parhau i gydweithio gydag Addewid Caerdydd ac adeiladu ar y bartneriaeth o weithio gydag asiantaethau allanol
- Sicrhau fod y mapiau cynlluniau wedi eu cwblhau a'u mireinio, yn benodol y pontio rhwng CC3 cynradd a CC3 uwchradd gan sicrhau bod dilyniant yn amlwg
- Mireinio a datblygu ein cynllunio Mathemateg a Rhifedd – rhannu'r continwwm dysgu Rhifedd gyda'r staff er mwyn sicrhau dilyniant ar draws yr ysgol
- Yn y MDaPh Celfyddydau Mynegiannol mapio allan cyfleoedd trawsgwricwlaidd
- Sefydlu Adolygiadau Dysgu'r Disgyblion ac Adolygiadau Rhieni

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Arbennig yn flaenoriaeth yn Ysgol Treganna. Mae'r cwricwlwm yn eang a chynhwysfawr ac yn cynnig cyfleoedd cyfartal i bawb.

Mae nifer o blant yn cael addysg anghenion arbennig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae gan rai plant anghenion arbennig penodol, anabledd corfforol neu allu neilltuol (MAT) sydd yn rhaid cael ei ymestyn.

**Cam Un:** Pan fydd gan riant, ofalwr ac/neu athro dosbarth bryder am blentyn unigol, ein hymateb cychwynnol yw darparu strategaethau addysgu o ansawdd uchel, sgaffaldiau dysgu, a gwahaniaethu o fewn y dosbarth.

**Cam Dau:** Os nad yw dysgwr yn datblygu yn ôl y disgwyl, mae'n bosibl y bydd angen ymyraethau wedi'u targedu i ategu addysgu gwahaniaethol, a hynny er mwyn mynd i'r afael â meysydd angen penodol.

**Cam Tri:** Pan fydd y cynnydd yn llai na'r disgwyl, mae'n bosib na fydd addysgu o ansawdd uchel, gan gynnwys gwahaniaethu ac ymyraethau arferol, safonol, yn ddigon i fodloni anghenion pob dysgwr. Mae'n bosib y bydd dysgwyr o'r fath yn cael eu hamlygu'n rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a bydd angen i'r ysgol gymryd rhai camau ychwanegol neu wahanol i sicrhau cynnydd.

**Tîm Cefnogi Dysgu:**

**Anogwyr Dysgu:**
Mr Thomas Sims-Hayes a Mrs Ingrid Morgan

**Uwch-anogwyr Dysgu:**
Mrs Rhiannydd Jones, Mrs Mari Hughes a Ms Rhoda Henson

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

### Rhaglenni Ymyrraeth:

**Gwybyddiaeth a Dysgu**

| Rhaglen Ymyrraeth | Disgrifiad | Pencampwr(wyr) |
|---|---|---|
| Dysgu Dwys | Cynllun i helpu dysgwyr i oresgyn anhawster penodol ac i ddatblygu cywirdeb a chyflymdra. 10 munud o ddysgu un i un bob dydd. | Mrs Mari Hughes, Ms Rhoda Henson & Mr Thomas Sims-Hayes |
| Cychwyn Eto / Direct Phonics | Rhaglen ffonolegol er mwyn cefnogi sgiliau darllen, sillafu ac ysgrifennu. | Mrs Mari Hughes, Ms Rhoda Henson & Mr Thomas Sims-Hayes |
| Clwb Cyfrif | Rhaglen i hybu hunan-hyder ac atgyfnerthu sgiliau rhif sylfaenol. | Mrs Mari Hughes, Ms Rhoda Henson & Mr Thomas Sims-Hayes |

**Cyfathrebu a Rhyngweithio**

| Rhaglen Ymyrraeth | Disgrifiad | Pencampwr(wyr) |
|---|---|---|
| Language Link | Rhaglen strwythuredig sy'n hybu dealltwriaeth o gysyniadau iaith. | Mrs Ingrid Morgan |
| Speech Link | Ymyrraeth wedi'i deilwra i dargedu a datblygu sgiliau lleferydd penodol. | Mrs Ingrid Morgan |
| POPAT | Rhaglen i gefnogi dysgwyr ag anawsterau iaith a lleferydd. | Mrs Ingrid Morgan & Ms Rhoda Henson |
| WellComm | Rhaglen i gefnogi dysgwyr ag anawsterau iaith a lleferydd. | Mrs Ingrid Morgan |
| Therapi LEGO | Mae Therapi LEGO yn gweithio ar feysydd penodol o ryngweithio cymdeithasol, gan gynnwys: cymryd tro, gwrando, datrys problemau a rhannu. Mae hefyd yn cefnogi cysyniadau ieithyddol e.e., maint, lliwiau ac arddodiaid. | Mrs Rhiannydd Jones |
| Sioni Siarad / Trochi Iaith | Ymyrraeth i gefnogi plant sy'n dysgu'r Gymraeg. | Ms Rhoda Henson |

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

### Ymddygiad, a Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol

| Rhaglen Ymyrraeth | Disgrifiad | Pencampwr(wyr) |
|---|---|---|
| ELSA | Mae Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) yn berson cynnes a gofalgar sy'n helpu dysgwyr i deimlo'n hapus yn yr ysgol ac i gyrraedd ei botensial yn addysgol. Bydd ELSA's yn helpu dysgwyr i ddysgu deall eu hemosiynau a pharchu teimladau'r rhai o'u cwmpas. | Mrs Rhiannydd Jones & Mrs Mari Hughes |
| Dewch i Siarad (Talkabout) | | Mrs Rhiannydd Jones & Mrs Mari Hughes |

### Anghenion Synhwyraidd a/neu Gorfforol

| Rhaglen Ymyrraeth | Disgrifiad | Pencampwr(wyr) |
|---|---|---|
| Handwriting Motorway | Nod yr ymyrraeth hon yw datblygu sgiliau mawr a bach er mwyn hwyluso llawysgrifen a rheolaeth osgo'r corff. | Mrs Mari Hughes, Ms Rhoda Henson & Mr Thomas Sims-Hayes |
| Cylched Synhwyraidd | Ymyrraeth sy'n helpu plant i reoleiddio a threfnu eu synhwyrau fel eu bod yn barod i ddysgu. | Mr Thomas Sims-Hayes |

## Iechyd a Diogelwch

Mae pob ymwelydd yn arwyddo i mewn ac allan yn y swyddfa.

Mae pob ymwelydd yn gwisgo bathodynnau adnabod wrth ymweld â'r ysgol.

Arddangosir nodyn wrth y brif fynedfa yn annog rhieni a gwarcheidwaid i arwyddo yn y swyddfa os ydynt yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol .

Mae pob aelod o'r staff wedi derbyn cymhwyster Cymorth Cyntaf a nifer o staff wedi derbyn cymhwyster Cymorth Cyntaf yn y Gwaith. Cedwir blychau cymorth cyntaf mewn amryw safleoedd o amgylch yr ysgol.

Sicrha'r ysgol bod plant a rhieni gydag anabledd yn medru symud yn gyfforddus o gwmpas yr adeilad. Mae ardaloedd parcio penodol i rieni ag anabledd. Marciwyd ardaloedd o gwmpas yr iard er diogelwch i blant ac oedolion gydag anawsterau gweld.

Mae gan yr ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch sy'n hysbys i bawb

Mae diogelwch y disgyblion yn holl bwysig. Mae clo diogelwch ar holl ddrysau allanol prif adeiladau'r ysgol ac mae disgwyl i ymwelwyr fynd i'r brif fynedfa wrth ddod i'r ysgol. Mae prif gatiau'r ysgol yn cael eu cloi rhwng 9.10yb a 3.20yh.

## Blaenoriaethau 2024–25
## Arweinyddiaeth

| Pam? | Sut? |
|---|---|
| Ydy arweinwyr ar bob lefel yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a'u hunain? | Fforwm Arweinyddiaeth – sefydlu cylch trylwyr o ddatblygu arweinyddiaeth i staff a chynorthwywyr. Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol yn datblygu potensial staff i arwain ac yn alinio gyda blaenoriaethau'r ysgol. |
| I ba raddau y mae'r arweinwyr yn defnyddio'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth er mwyn helpu'r gweithlu i berfformio'n effeithiol? | Mireinio ein defnydd o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth – cyfarfodydd rheoli ac adolygu pythefnosol, datblygu pasbort proffesiynol staff, holiaduron hunan werthuso staff a chynorthwywyr |
| I ba raddau y mae'r arweinwyr yn datblygu'r gweithlu ac yn meithrin diwylliant o gydweithio ac arloesi? | Sefydlu grwpiau ymholi proffesiynol staff a chynorthwywyr. Sicrhau fod pob aelod o staff yn cyd weithio ac yn cynnal ymchwil personol yn gysylltiedig â'u cwestiwn ymchwiliol er mwyn meithrin cydweithio ac arloesi. Creu rhwydwaith Ymholi Proffesiynol Treganna. |
| I ba raddau mae'r prosesau hunanwerthuso yn effeithiol a sut mae mesur hyn? | Gwreiddio ymhellach prosesau hunanwerthuso effeithiol. Datblygu'r prosesau ymhellach gan ddefnyddio fframwaith Estyn ac alinio gyda'r fframwaith gwerthuso a gwella. |
| Pa mor dda mae'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n bwrpasol at bennu blaenoriaethau strategol yr ysgol? | Datblygu ymhellach rôl y llywodraethwyr wrth gyfrannu'n bwrpasol at bennu blaenoriaethau strategol yr ysgol. Llywodraethwyr i fod yn rhan o brosiectau ymchwil y staff - ymuno gyda chwlwm dysgu staff/ cynorthwywyr. |

## Blaenoriaethau 2024–25
## Dysgu ac Addysgu

| Pam? | Sut? |
|---|---|
| I ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu mewn perthynas â'r egwyddorion cynnydd? | Creu continiwwm chwarae ar draws yr ysgol er mwyn datblygu sgiliau annibynnol, chwilfrydedd chwarae a mentergarwch y disgyblion. |
| I ba raddau y mae dysgwyr yn meithrin y sgiliau er mwyn myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith eu hunain a dysgwyr eraill? | Datblygu polisi adborth a marcio'r ysgol gan sicrhau bod cynnydd yn y strategaethau a chysondeb yn y dulliau. Sicrhau bod y disgyblion yn rhan allweddol o'r adborth ac yn cyfrannu at bennu eu targedau a'r cam nesaf yn eu taith dysgu. |
| I ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu soffistigeidrwydd cynyddol yn eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol? | Targedu sillaf Saesneg gan ddefnyddio cynlluniau Monster/ Superhero phonics. Hyfforddiant i staff ym mis Medi, fframwaith i gael eu rhannu, mesur effaith i ddigwydd yn dymhorol. |
| I ba raddau y mae'r addysgu'n cynnig y lefel gywir o her a disgwyliadau uchel ar draws yr ysgol? | Mapio genres ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau her a chynnydd yn y gwaith ysgrifenedig. |
| Pa mor effeithiol mae athrawon yn gwneud eu dosbarthiadau'n lleoedd ysgogol a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion wneud cynnydd? | Datblygu'r amgylchedd dysgu dysgu awyr agored gan ffocysu ar ardaloedd allanol bob dosbarth. Creu fframwaith Dysgu Awyr Agored, gwersi i bob dosbarth yn wythnosol. |
| I ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu sgiliau o fewn ac ar draws y meysydd dysgu? | Dyfnhau dealltwriaeth o'r 5 hyfedredd gan sicrhau eu bod yn sail i waith rhesymu trawsgwricwlaidd. |

**Blaenoriaethau 2024–25**
**Cwricwlwm**

| Pam? | Sut? |
|---|---|
| I ba raddau y mae'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn cyflwyno'r cwricwlwm yn cynnwys dulliau cipio cynnydd dysgwyr? | Gwreiddio y system tracio mewnol a chreu meincnodau ar gyfer pob maes trawsgwricwlaidd. |
| I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb? | Addasu a mireinio ein gweithdrefnau Addysg, Rhyw a Chydberthynas a Rhywioldeb. Gweithredu'r cynllun clwstwr a sicrhau bod y cyfleoedd wedi eu mapio yn glir ar draws y meysydd dysgu a phrofiad ac ar draws y continiwwm dysgu. |
| I ba raddau y mae'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn cyflwyno'r cwricwlwm yn cynnig profiadau dysgu eang a chytbwys? | Cynllunio yn fwy bwriadus ar gyfer addysgu disgyblion am hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl LHDTC+. |
| Ydy pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol ar hyd y continiwwm dysgu mewn perthynas â'r egwyddorion cynnydd? | Datblygu a gwreiddio Platfform Cynnydd yr ysgol. |
| Ydy'r dysgwyr yn trosglwyddo eu dysgu rhwng gwahanol feysydd dysgu a phrofiad? | Ail edrych ar y cynllunio er mwyn sicrhau bod prosiect pwrpasol ar ddiwedd y cysniad sy'n dyfnhau'r dysgu. |
| I ba raddau ydy dysgwyr yn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y Meysydd? | Continiwwm digidol i gael ei gyflwyno i'r staff sy'n cyd fynd gyda'r fframweithiau digidol. Staff i weithredu'r continiwwm ac i fesur effaith yn dymhorol. |

## Blaenoriaethau 2024–25
## ADY, Lles a Chynhwysiant

| **Pam?** | **Sut?** |
|---|---|
| I ba raddau y mae'r ysgol yn monitro ac adolygu cynnydd, cyrhaeddiad a lles dysgwyr ag ADY? | Parhau i ddatblygu darpariaeth Jigso yr ysgol gan edrych ar fapio effaith ymyriadau. |
| I ba raddau y mae'r ysgol yn defnyddio cyfraniadau'r gymuned a phartneriaid eraill i ddatblygu ei gweledigaeth ar gyfer dysgu, addysgu a'r cwricwlwm? | Sefydlu Hwb cymunedol i'r gymuned yn yr ysgol. Trefnu gweithdai wythnosol i rieni a'r gymuned leol. |
| I ba raddau y mae'r athrawon yn cyfrannu at ddysgu proffesiynol y staff yn yr ysgol a thu hwnt? | Sefydlu Cwlwm Mentora yn yr ysgol ar gyfer rhannu arfer dda rhwng y cynorthwywyr. |
| I ba raddau y mae'r ysgol yn diwallu anghenion dysgwyr ag ADY a sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd y dylent? | Datblygu ymhellach darpariaeth y Cwtch gan werthuso effaith yr ymyriadau lles ar gynnydd a chyrhaeddiad. |
| I ba raddau y mae'r ysgol yn ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd dysgwyr ag ADY a'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt? | Sefydlu Fforwm Rieni yn yr ysgol er mwyn rhoi cymorth i rieni. |

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi a'ch plant dros y flwyddyn academaidd nesaf.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Catrin Evans
Pennaeth

ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk
@YsgolTreganna

## Ysgol Treganna

Sanatorium Road
Canton
Cardiff
CF11 8DG

